

Enw'r Polisi:	Polisi Galluogi Perfformiad	Rhif y Polisi: P1718 - 1078
Perchennog y Polisi:	Charlie James, Arweinydd Trawsnewidiol: Perfformiad, Adnoddau Dynol	
Dyddiad Cyhoeddi/Adolygu Diwethaf: Awst 2022		Dyddiad Adolygu Nesaf: Awst 2022
Deddfwriaeth Berthnasol / Arweiniad ACAS os yw'n berthnasol:		Amherthnasol
Dogfennau sy'n cael eu disodli		Amherthnasol
Datganiad Polisi:		
<p>Diben: Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i ddiwylliant o Alluogi Perfformiad sy'n anelu at gefnogi a galluogi gweithwyr i wireddu eu potensial, llwyddo yn eu swyddi a thrwy hynny gyflawni prif themâu strategol y Brifysgol.</p> <p>Galluogi Perfformiad yw amrywiaeth o ddulliau cysylltiedig a fydd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> ❖ Egluro'r hyn a ddisgwylir gan yr unigolyn a safon y perfformiad sy'n ofynnol. ❖ Sicrhau bod yr unigolyn yn deall yn iawn yr amcanion sefydliadol allweddol a'i gyfraniad ef i'w cyflawni. ❖ Darparu cymorth, adborth, hyfforddiant a sgiliau perthnasol fel y gall yr unigolyn berfformio i'r eithaf. ❖ Dymchwel rhwystrau sy'n amharu ar berfformiad unigolyn ❖ Dangos bod gweithwyr sy'n perfformio'n dda yn cael eu cydnabod a bod y rhai sy'n tanberfformio yn cael eu herio <p>Cefnogir y diwylliant Galluogi Perfformiad gan system Adolygiad Datblygiad Proffesiynol ar-lein, a'r disgwyl yw bydd pob aelod o staff yn cael dau gyfarfod Adolygiad Proffesiynol bob blwyddyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> ❖ Mae'r adolygiad blynyddol, yn gyfle ffurfiol i'r aelod staff a'i reolwr llinell fel ei gilydd fyfyrio ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y 12 mis blaenorol, ac i ba safon, ac i edrych ymlaen a gwneud cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dylai'r adolygiad ganolbwyntio ar nodi'r disgwyliadau sydd wedi'u bodloni neu y rhagorwyd arnynt, a herio'r unigolyn am y disgwyliadau nas cyflawnwyd. ❖ Bydd adolygiad interim yn ffurfiol adborth rheolaidd mwy anffurfiol, a sesiynau hyfforddi. <p>Lle bynnag y bo modd, defnyddir Gwybodaeth Reoli o fewn y broses Adolygiad Datblygu Proffesiynol i ddarparu adborth unigol ar berfformiad.</p> <p>Bydd Adolygiadau Datblygiad Proffesiynol yn dilyn yn naturiol o Sefydlu a'r Cyfnod Prawf, a chefnogir y broses ddyrchafu gan yr Adolygiad Proffesiynol.</p> <p>Cwmpas Mae'r Polisi Galluogi Perfformiad yn berthnasol i'r holl weithwyr. Disgwylir i'r holl aelodau staff sydd wedi cwblhau eu Cyfnod Prawf gymryd rhan mewn Adolygiad Datblygiad Proffesiynol.</p>		
Diffiniadau o dermau Adnoddau Dynol a ddefnyddir yn y polisi hwn:		
Gweithdrefnau Cefnogi/Dogfennau Cyfarwyddyd/Codau Ymarfer gyda Rhifau polisi a hyperddolenni:		
Canllawiau Polisi Galluogi Perfformiad		